Subject **Cyngor Sir Powys County Council: Council recycling facility investment plans**
From Lee Evans (CSP - Communications Services) <lee.evans@powys.gov.uk>
Date 13/03/2017 12:38

roundcube
open source webmail software

- ATT00002.jpg (~6 KB)

News Release

MR 24

13 March 2017

Immediate Release

Council recycling facility investment plans

Plans to secure the long-term future of the county's household waste and recycling centres have taken a step forward with the purchase of a new site, Powys County Council has announced.

The council has purchased a site on the Dyffryn Industrial Estate in Newtown to establish a new household waste and recycling centre which would be in the council's ownership.

The household waste and recycling sites in Brecon and Ystradgynlais are owned by the council with another site in Llandrindod Wells to be developed. The remaining sites are owned by private companies.

Cllr John Powell, Cabinet Member for Waste and Recycling, said: "Having household waste and recycling centres in our ownership increases our options to maximise value from any future tendering process or allow us to operate the service in-house."

As well as the purchase of the site in Newtown, the council's Cabinet has given the go-ahead to develop part of a site in Abermule for a new bulking facility.

Subject to planning permission, the bulking facility would be used to bulk and bale recyclable materials collected at the kerbside. Similar facilities are operating in Brecon and Rhayader.

"At our bulking facilities, we will be able to sort and bale all the recyclables we collect from kerbside into high-quality, valuable materials ready for sale to re-processors," said Cllr Powell.

"By having these facilities in strategic locations, we will also be able to reduce the number of vehicles on the road and our haulage costs."

The investment are part of the council's long-term plans to secure strategic recycling and waste facilities across the county to help the council meet ambitious recycling targets set by the Welsh Government. The investment will help the council meet its savings targets as there be a reduction in the running costs of providing the service.

"It is important that our recycling facilities are in strategic locations across the county if we are to meet the Welsh Government's ambitious target to recycle at least 70 per cent of waste by 2025," added Cllr Powell.

The council will be holding a pre-planning consultation on its plans to develop the household waste and recycling centre at the Dyffryn Industrial Estate before submitting a planning application.

Information on the proposals and how to take part in the pre-planning consultation will be available at www.powys.gov.uk/recycling in the coming weeks.

ENDS

I'w Ryddhau

Cynlluniau buddsoddi'r Cyngor mewn cyfleuster ailgylchu

Mae Cyngor Sir Powys wedi cyhoeddi bod cynlluniau i sicrhau dyfodol tymor hir canolfannau gwastraff o'r cartref ac ailgylchu'r sir wedi gweld cynnydd wrth i safle newydd gael ei brynu.

Mae'r cyngor wedi prynu safle newydd ar Stad Ddiwydiannol Dyffryn yn y Drenewydd i sefydlu canolfan gwastraff o'r cartref ac ailgylchu a fyddai'n berchen i'r cyngor ei hun.

Mae'r canolfannau gwastraff o'r cartref ac ailgylchu yn Aberhonddu ac Ystradgynlais yn perthyn i'r cyngor, ynghyd â safle arall sy'n cael ei ddatblygu yn Llandrindod. Cwmnïau preifat sy'n berchen ar y safleoedd eraill.

Dywedodd y Cyng John Powell, Aelod Portffolio'r Cabinet â chyfrifoldeb am Wastraff ac Ailgylchu: "Mae bod â chanolfannau gwastraff ac ailgylchu yn ein perchnogaeth yn cynyddu ein hopsiynau i sicrhau'r gwerth gorau posibl o unrhyw broses dendro yn y dyfodol neu'n caniatáu i ni gynnig y gwasanaeth ein hunain."

Yn ogystal â phrynu'r safle yn Y Drenewydd, mae Cabinet y cyngor wedi penderfynu datblygu rhan o safle yn Aber-miwl ar gyfer cyfleuster crynhoi gwastraff.

Gan ddibynnu ar ganiatâd cynllunio, byddai'r cyfleuster crynhoi yn cael ei ddefnyddio i grynhoi deunyddiau ailgylchu sy'n cael eu casglu o ymyl y ffordd. Mae cyfleusterau tebyg ar waith yn Aberhonddu a Rhaeadr Gwy.

"Yn ein cyfleusterau crynhoi, byddwn yn gallu didoli a chrynhoi'r holl wastraff ailgylchu a gasglwn o ymyl y ffordd yn ddeunyddiau gwerthfawr o ansawdd da yn barod i'w gwerthu ar gyfer ailbrosesu," meddai'r Cyng Powell.

"Trwy gynnal y cyfleusterau yma mewn lleoliadau strategol, byddwn hefyd yn gallu lleihau nifer y cerbydau sydd ar y ffordd a'n costau cludiant."

Mae'r buddsoddiadau hyn yn rhan o gynlluniau tymor hir y cyngor i sicrhau cyfleusterau strategol ar gyfer gwastraff ac ailgylchu ar draws y sir i helpu'r cyngor i gyrraedd targedau ailgylchu uchelgeisiol Llywodraeth Cymru. Bydd y buddsoddi'n helpu i'r cyngor gyrraedd ei dargedau arbedion, gan y bydd llai o gostau rhedeg ynghlwm â darparu'r gwasanaeth yma.

"Mae'n bwysig bod ein cyfleusterau ailgylchu mewn lleoliadau strategol ar draws y sir os ydym i gyrraedd targed uchelgeisiol Llywodraeth Cymru i ailgylchu o leiaf 70 y cant o'n gwastraff erbyn 2025," ychwanegodd y Cyng Powell.

Bydd y cyngor yn cynnal ymgynghoriad cyn-gynllunio ar ei gynlluniau i ddatblygu'r ganolfan gwastraff o'r cartref ac ailgylchu ar Stad Ddiwydiannol Dyffryn cyn cyflwyno cais cynllunio.

Bydd gwybodaeth am y cynigion a sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyn-gynllunio ar gael yn www.powys.gov.uk/cy/ yn ystod yr wythnosau nesaf.

DIWEDD

For further information please contact:
Am fanylion pellach cysylltwch â:
Lee Evans,
Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu
Communications and Engagement Officer
Ffôn/Tel: 01597 826023
Ffôn Symudol/Mobile: 07769 640058
Ebost/Email: lee.evans@powys.gov.uk

Mae'r e bost hwn ac unrhyw atodiad iddo yn gyfrinachol ac fe'i bwriedir ar gyfer y sawl a enwir arno yn unig. Gall gynnwys gwybodaeth freintiedig. Os yw wedi eich cyrraedd trwy gamgymeriad ni ellwch ei gopio, ei ddosbarthu na'i ddangos i unrhyw un arall a dylech gysylltu gyda Cyngor Sir Powys ar unwaith. Mae unrhyw gynnwys nad yw'n ymwneud gyda busnes swyddogol Cyngor Sir Powys yn bersonol i'r awdur ac nid yw'n awdurdodedig gan y Cyngor.

This e mail and any attachments are confidential and intended for the named recipient only. The content may contain privileged information. If it has reached you by mistake, you should not copy, distribute or show the content to anyone but should contact Powys County Council at once. Any content that is not pertinent to Powys County Council business is personal to the author, and is not necessarily the view of the Council.